# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD IAU, 9 RHAGFYR 2021

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Cai Larsen (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Aled Evans, Alwyn Gruffydd, Selwyn Griffiths, Judith Humphreys, Elwyn Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Huw Wyn Jones, Dewi Owen, Rheinallt Puw, Elfed P.Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Dewi Roberts a Mike Stevens.

**Aelodau Cyfetholedig:** Ruth Roe (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Meirionnydd) a Manon Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon).

**Swyddogion yn bresennol:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:** Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Dylan Griffiths (Rheolwr Rhaglenni Datblygu'r Economi) a Kelvin Roberts (Arweinydd Rhaglen Cyflogadwyedd)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:** Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Debbie Anne Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg) a Bethan Griffith (Rheolwr Gwasanaethau Ategol Addysg).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**

*Adran Addysg* Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Debbie Anne Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg), Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Meirion / Dwyfor), Rhian Parry Jones (Swyddog Addysg Uwchradd Gwynedd) a Ffion Edwards Ellis (Pennaeth Cynorthwyol ADY a Chynhwysiad)

*GwE* Alwyn Lloyd Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Safonau), Elfyn Vaughan Jones (Uwch Arweinydd – Uwchradd), Sharon Vaughan (Arweinydd Craidd – Uwchradd) a Geraint Evans (Arweinydd Craidd – Cynradd)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig) a Karen Vaughan Jones (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Dwyfor).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Selwyn Griffiths fuddiant personol yn eitem 5 – Lefelau Diweithdra a Chefnogaeth yn ôl i Swyddi - oherwydd mai ei fab oedd awdur yr adroddiad i'r pwyllgor. Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd y Cynghorydd Dewi Roberts fuddiant personol yn eitem 6 - Cinio Ysgol - oherwydd bod aelod o'r teulu yn Llywodraethwr Ysgol Dyffryn Nantlle. Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 21 Hydref, 2021 fel rhai cywir.

## 5. LEFELAU DIWEITHDRA A CHEFNOGAETH YN ÔL I SWYDDI

Croesawyd yr Aelod Cabinet a swyddogion yr Adran Economi a Chymuned i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned, ar gais y pwyllgor craffu, yn amlinellu'r newidiadau yn niweithdra a pha gefnogaeth mae'r Cyngor yn ei gynnig i bobl Gwynedd.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Mynegwyd pryder bod cymaint o bobl ifanc y sir yn gadael bob blwyddyn, a phryderid hefyd na ellid dibynnu ar yr ystadegau a gyflwynwyd i'r pwyllgor oherwydd bod yna gymaint o allfudo. Roedd gan Lywodraeth Cymru nod i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac os oedd y cynlluniau hyn yn ddibynnol ar grant gan y Llywodraeth, roedd cyfle yma i ateb yr allfudo sydd wedi bod, yn enwedig oherwydd demograffi'r sir a phwysigrwydd y Gymraeg yn y sir, drwy ddweud wrth y Llywodraeth beth y gellir ei wneud i gryfhau'r ardaloedd Cymraeg ac i geisio atal yr allfudo.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd edrych ar anghenion cyflogaeth i'r dyfodol er mwyn sicrhau y bydd y bobl ifanc hynny sy'n mynd drwy'r gyfundrefn addysg ar hyn o bryd yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol ar gyfer y swyddi fydd ar gael ar ddiwedd eu cyfnod mewn addysg. Mynegwyd pryder bod pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig megis Pen Llŷn yn gorfod teithio'n bell i fynychu cyrsiau yn y colegau. Nodwyd hefyd bod yna bobl â gwahanol arbenigeddau fyddai, o bosib', mewn sefyllfa i ddarparu hyfforddiant i bobl leol i'w cynorthwyo i gael gwaith, ac awgrymwyd y dylid targedu'r math hynny o bobl.
- Nodwyd bod y sefyllfa swyddi / tai yn y sir yn gylch dieflig. Roedd angen swyddi, ond i ddenu cyflogwyr da, roedd angen tai. Roedd yna brinder tai, ond ni ellid adeiladu tai yn y gobaith o ddenu cyflogwyr. Nodwyd bod Brighter Foods yn Nhywyn yn awyddus i ymestyn yn sylweddol yn sgil derbyn buddsoddiad o £42m, ond eu bod yn cael anhawster denu staff oherwydd prinder tai yn yr ardal. Ychwanegwyd bod De Meirionnydd wedi dioddef yn ddifrifol ers i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig a Datblygu Canolbarth Cymru ddod i ben rai blynyddoedd yn ôl. Cyfeiriwyd hefyd at siop fferm, oedd yn awyddus i ymestyn ac adleoli i uned wag ar Stryd Fawr Tywyn, ond yn methu cael caniatâd cynllunio i wneud hynny, ac awgrymwyd y dylai'r Cyngor lacio'r cyfyngiadau cynllunio ac annog mwy o adeiladu tai yn yr ardal.
- Mynegwyd pryder bod ymgyrchoedd recriwtio mewn sawl sector, megis gofal, lletygarwch, cymorthyddion ysgol a rhaglen frechu'r Bwrdd Iechyd, i gyd yn pysgota yn yr un pwll, ac y gallai llwyddiant un sector fod ar draul y gweddill.

- Nodwyd bod cyfle yma i gael llwybr gyrfa i bobl sy'n dod i weithio i'r Cyngor, yn enwedig yn y sector gofal, ond nad oedd yr adroddiad yn cyfarch hynny.

Mewn ymateb i'r sylwadau, ac i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Bod gan yr Adran raglen creu gwaith gwerth uchel, gyda'r nod o greu swyddi o safon yng Ngwynedd i gadw ein pobl ifanc yma. Fodd bynnag, roedd rhai o benderfyniadau'r Llywodraeth, yn enwedig y penderfyniad diweddar i beidio bwrw ymlaen â chynllun ffordd osgoi Llanbedr, wedi bod yn ergyd drom i'r ardal, ac yn golygu y byddai'n anodd iawn cael cwmnïau i fuddsoddi yn y Ganolfan Awyrofod i'r dyfodol. Roedd yn amlwg bod y Llywodraeth yn troi cefn ar yr ardaloedd gwledig ac yn canolbwyntio popeth yn y trefi a'r dinasoedd.
- Bod ambell sylw yn adroddiad y Panel Annibynnol yn creu pryder, megis y sylw y dylai gwaith gael ei gyfeirio at yr ardaloedd twf sydd wedi'u hadnabod yn y Fframwaith Datblygu Rhanbarthol, gan nad oedd Gwynedd yn un o'r ardaloedd hynny. Yn naturiol, roedd pobl ifanc eisiau'r profiad o fynd i ffwrdd i ardaloedd gwahanol i gael profiadau gwahanol, ond roedd yn bwysig ein bod yn gallu creu'r cyfleoedd iddynt allu dychwelyd i'r sir. Gwendid economi Gwynedd oedd y diffyg amrywiaeth swyddi, a nod yr ymdrech yn Llanbedr, a hefyd yn Nhrawsfynydd, oedd cael yr amrywiaeth hynny fyddai'n galluogi i deuluoedd aros yn yr ardal. Croesawid y ffaith bod yna gytundeb gwleidyddol i sefydlu Rhaglen Arfor am gyfnod pellach, a gobeithid y gellid dylanwadu ar y rhaglen yma er mwyn canolbwyntio ar gadw gwaith mewn cymunedau gwledig i gynnal gwasanaethau.
- O ran cefnogi'r sector lletygarwch a thwristiaeth, nodwyd bod y cynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr i'r ardal dros yr haf diwethaf, wrth i lai o bobl fynd dramor ar wyliau, wedi creu problemau i'r diwydiant, a hefyd i'r gymdeithas sy'n cynnal y diwydiant hwnnw. Mynegwyd gobaith y byddai'r gwaith ar y cyd â'r Parc Cenedlaethol i ddatblygu economi ymweld cynaliadwy o gymorth i'r diwydiant, a chyfeiriwyd at gynhadledd ddiweddar ar hyn. Nodwyd ymhellach bod gweithdai i'w cynnal ym mis Ionawr, gyda'r nod o lunio rhaglen weithredu erbyn Mawrth.
- Bod y sefyllfa dros y 18 mis diwethaf wedi prysuro'r angen i greu, nid yn unig mwy o swyddi, ond gwell swyddi. Roedd yr Adran yn cefnogi busnesau, ochr yn ochr â chefnogi pobl i gael y swyddi hynny, ac roedd Tîm Gwaith Gwynedd wedi bod yn gweithio'n ddiwyd ar rai ymyraethau fyddai'n hwyluso hynny, e.e. drwy gefnogi pobl sydd eisoes mewn swyddi i symud ymlaen i swyddi sy'n talu'n well, ayb, a thrwy hynny greu cyfleoedd i bobl sy'n dychwelyd i waith, neu'n dod i waith am y tro cyntaf. Hefyd roedd yr Adran yn arwain Rhaglen STEM y Gogledd ar ran cynghorau Gwynedd, Môn a Chonwy. Roedd yr Adran wedi datblygu eu perthynas gyda'r Adran Addysg yn sylweddol yn y cyfnod diwethaf hefyd ac roedd darn o waith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd yn edrych ar anghenion cyflogwyr, a sut i'w hamlygu i blant tra'n dal yn yr ysgol. Roedd y flwyddyn nesaf, sef blwyddyn olaf Cynllun y Cyngor 2018-23, yn mynd i fod yn gyfnod o adolygu a chymryd stoc, gan edrych ar yr anghenion o ran yr economi ac o ran pobl Gwynedd wrth symud ymlaen.
- Bod llawer mwy o ddata ar gael na'r hyn oedd yn yr adroddiad. Roedd y trydydd graff yn Atodiad 1 i'r adroddiad yn dangos y patrwm diweithdra dros y tair blynedd ddiwethaf (sefydlog yn 2019, naid anferth yn 2020 a gostyngiad yn 2021) a nodwyd y gellid anfon ffynhonnell at yr aelodau iddynt fedru gweld y math yma o wybodaeth mewn mwy o fanylder. Nodwyd ymhellach bod Tîm Gwaith Gwynedd yn gweithio'n agos gyda Thîm Gofal y Cyngor, nid yn unig o ran codi awydd pobl i weithio yn y maes a'u helpu i gael y sgiliau angenrheidiol, ond hefyd i helpu'r sector gofal i feddwl sut maent yn pecynnu'r gwaith, er mwyn denu mwy o bobl. Nodwyd ymhellach y lluniwyd hysbysfwrdd swyddi er mwyn dadansoddi lle mae'r cyfleoedd

gwaith yn codi ar draws y sir, ac ym mha sectorau, a bod y Tîm hefyd yn dadansoddi i ba sectorau mae'r bobl a gefnogwyd i swyddi wedi mynd, er mwyn gweld a yw hynny'n cyd-fynd ag anghenion cyflogwyr. Nodwyd, yn fras, ers cychwyn Ebrill, bod tua 40% o'r 150 o unigolion a gefnogwyd i waith wedi mynd i'r sector twristiaeth a lletygarwch, a tua 8% i'r sector gofal. Nodwyd hefyd, ers paratoi'r adroddiad, bod nifer yr unigolion a gefnogwyd bellach wedi codi o 150 i 170. Ychwanegwyd bod y Tîm yn parhau i weithio gyda'r Tim Datblygu Staff Gofal i geisio denu mwy o bobl i'r maes, ac roedd un ffrwd gwaith yn edrych yn benodol ar ddefnyddio sgiliau trosglwyddadwy i gefnogi'r sector gofal dros y gaeaf, e.e. cyflogi staff tymhorol sy'n glanhau carafanau i gyflawni gwaith gofal domestig dros y gaeaf.

- Bod yr her o dangyflogaeth, neu bobl fyddai'n dymuno, neu'n gallu cyflawni mwy o ran gwaith, ond ddim yn cael y cyfle, yn un o'r heriau o ran cynyddu incwm i deuluoedd, a hefyd o ran diwallu'r anghenion sydd gan fusnesau a sectorau eraill. Roedd yna waith yn digwydd o ran marchnata a hysbysebu i helpu pobl fyddai'n hoffi gwella eu capasiti i weithio, a hynny drwy gyfrwng llinell gymorth a'r cyfryngau cymdeithasol, ayb, ond roedd newid y sefyllfa'n mynd i gymryd amser. Roedd yn broses eithaf parhaus hefyd o edrych ar batrymau gwahanol o weithio. Roedd Tîm Gwaith Gwynedd wedi gwneud darn o waith i edrych ar y posibilrwydd y gallai cwmnïau gyflogi staff tymhorol drwy gydol y flwyddyn drwy ledaenu'r cyflog dros 12 mis, yn hytrach na thalu dros fisoedd yr haf yn unig. Edrychwyd hefyd ar opsiynau o ran swyddi allai weithio ochr yn ochr â'i gilydd a chrëwyd hysbysfwrdd cyflogaeth ar Facebook er mwyn ymateb yn sydyn i anghenion cyflogwyr. Rhannwyd gwybodaeth hefyd drwy Dîm Budd-daliadau'r Cyngor, banciau bwyd a'r CAB.
- Bod gwaith wedi bod yn mynd rhagddo rhwng y Gwasanaeth Adnoddau Dynol a Thîm Gwaith Gwynedd i edrych ar lwybrau gyrfa yn y Cyngor.
- Bod mwy o wybodaeth i ddod ynglŷn â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Disgwylid y manylder ynglŷn â'r broses ymgeisio yn ystod yr haf, ond ni ellid bod yn sicr na fyddai yna rywfaint o fwlch o ran hynny. Roedd y Llywodraeth hefyd yn edrych ar bontio drwy barhau ac ymestyn rhywfaint o raglenni dros gyfnod.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod.**

## 6. CINIO YSGOL

Croesawyd yr Aelod Cabinet a swyddogion yr Adran Addysg i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn darparu gwybodaeth am drefniadau ysgolion i geisio sicrhau na fydd unrhyw blentyn yn wynebu diwrnod heb ginio yn yr ysgol, ynghyd â sefyllfa dyledion cinio ysgol a'r prosesau sydd yn weithredol er mwyn ymateb i'r sefyllfa hynny.

Cyn cychwyn ar y drafodaeth, cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at y llythyr diweddar gan Ysgol Dyffryn Nantlle at rieni ynglŷn â thaliadau cinio ysgol, gan nodi y dymunai roi sicrwydd i'r aelodau nad oedd y Cyngor yn gwrthod cinio ysgol i unrhyw blentyn o fewn y sir, waeth beth oedd yr amgylchiadau. Nododd ymhellach fod Cadeirydd Corff Llywodraethol yr ysgol wedi gofyn i'r Adran ail-edrych ar eu prosesau, a chadarnhaodd y byddai'r Adran yn sicr yn ymateb i hynny.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Mynegwyd cefnogaeth frwd i fwriad y Llywodraeth i ymestyn cinio am ddim i holl ddisgyblion cynradd. Nodwyd bod yna nifer o fanteision i hyn, e.e. plant yn dysgu'n well yn y pnawn ar ôl cael cinio maethlon, mynd i'r afael â gordewdra, dim gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n cael cinio am ddim a'r rhai sy'n talu ynghyd â chael gwared â'r broblem o deuluoedd sy'n gymwys i gael cinio am ddim, ond ddim yn hawlio am wahanol resymau.
- Gan gyfeirio at y sefyllfa a gododd yn Ysgol Dyffryn Nantlle, mynegwyd siomedigaeth na adroddwyd ar hyn i'r Cyngor llawn diwethaf. Roedd pryder eang a chyffredin ymysg y cynghorwyr ynglŷn â'r hyn ddigwyddodd, a dylai pob un ohonynt fod wedi cael cyfle i ofyn cwestiynau. Nodwyd ymhellach bod yr adroddiad yn cyfeirio at 'aneglurder', ond nad oedd yn esbonio beth oedd yr aneglurder hwnnw, nac ychwaith yn cynnig ymddiheuriad am yr hyn ddigwyddodd. Roedd honiadau wedi'u gwneud gan bennaeth mewn gofal bod yr Awdurdod wedi ei ddefnyddio fel bwch dihangol, ac nid oedd yr adroddiad yn cyfarch y cwestiynau difrifol oedd angen eu hateb ynglŷn â hynny.
- Mynegwyd pryder ynglŷn ag unrhyw fwriad i allanoli'r gwasanaeth a chreu ceginau rhanbarthol gan y byddai cau ceginau ysgolion yn arwain at ddiweithdra.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd darparu bwydydd maethlon o ansawdd i blant ysgol ac awgrymwyd bod cyfle yma i ddefnyddio, e.e. llysiau sy'n cael eu tyfu ar dir yr ysgol / yn y gymuned yn y prydau ysgol.
- Nodwyd, er ei bod yn amlwg bod yr hyn ddigwyddodd yn Ysgol Dyffryn Nantlle wedi achosi poen ac embaras i'r Awdurdod, bod yr Awdurdod wedi ymateb i'r sefyllfa yn gyflym ac yn briodol, gan gywiro unrhyw gamargraff. Roedd rhaid bod yn sensitif i dlodi wrth ymateb i'r sefyllfa, ond roedd angen derbyn hefyd bod yna leiafrif bychan sy'n cymryd mantais o unrhyw systemau gwan o ran casglu arian cinio. Yr egwyddor bwysicaf oedd nad bai'r plentyn yw os nad yw'r rhieni yn talu, hyd yn oed os oes ganddynt y modd i dalu.
- Croesawyd y cadarnhad nad oedd Gwynedd yn atal unrhyw blentyn rhag cael cinio ysgol.
- Mynegwyd dymuniad i gael diweddariadau cyson ynglŷn â threfniadau'r Awdurdod fel mae'r cynlluniau newydd yn symud yn eu blaenau.
- Nodwyd bod dysgu gwersi yn hynod bwysig, a bod cyfle i edrych i'r dyfodol i sicrhau llwyddiant y strategaeth bwysig yma o ran cinio am ddim i bob plentyn cynradd, gan hefyd lobïo am yr un peth yn y sector uwchradd a gwneud popeth o fewn ein gallu i unioni anghyfiawnder tlodi.

Mewn ymateb i'r sylwadau, ac i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- O ran cynlluniau'r Llywodraeth i ymestyn cinio ysgol am ddim, y deellid ar hyn o bryd bod bwriad i edrych ar hyn yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, gan gyflwyno'r newidiadau'n raddol a chanolbwyntio ar y plant ieuengaf yn gyntaf. Cydnabyddid bod yr amserlen yn dynn iawn, ond roedd yr Adran eisoes wedi dechrau edrych ar hyn fel eu bod yn rhagweithiol yn sicrhau bod eu trefniadau mewnol yn galluogi iddynt gyfarch yr angen yma cyn gynted â phosibl.
- O dan y ddeddfwriaeth bresennol, bod rhaid i riant wneud cais am ginio am ddim, er eu bod, o bosib', yn derbyn budd-daliadau. Roedd yr ysgolion yn atgoffa rhieni o hynny, ac yn ceisio eu hannog i gyflwyno cais. Serch hynny, roedd pobl yn gyndyn o wneud ceisiadau am fudd-daliadau, gan gynnwys cinio am ddim, a nodwyd bod cyfrifoldeb ar yr holl aelodau etholedig i sicrhau bod eu hetholwyr yn cyflwyno'r ceisiadau hyn. Nodwyd hefyd bod rôl allweddol i Uned Hawlio Lles y Cyngor yn hyn o beth. Nodwyd ymhellach bod cynllun y Llywodraeth yn gam enfawr yng nghyd-

destun llesiant a'n cyfrifoldeb tuag at blant, ac yn dileu unrhyw stigma sy'n gysylltiedig â cheisiadau o'r fath.

- Bod yr Awdurdod wedi ymddiheuro am y sefyllfa a gododd yn Ysgol Dyffryn Nantlle mewn datganiad i'r wasg, ac i'r ysgolion a'r aelodau etholedig hefyd. Roedd y digwyddiad yn anffodus ac wedi creu pryder i lawer o bobl, ond roedd gwersi wedi'u dysgu, a chyfathrebwyd yn syth â'r ysgolion i atgoffa pawb o ddyhead yr Awdurdod na ddylai'r un plentyn fynd heb ginio yn ysgolion Gwynedd. O ran y diffyg eglurdeb yn yr adroddiad, efallai ei bod yn deg dweud nad oedd yr arweiniad yn ddigon eglur ar un pwynt, ond mater o ddehongliad oedd hynny hefyd, a gweithredwyd yn gyflym iawn i glirio unrhyw aneglurder a chryfhau a chadarnhau safbwynt y Cyngor. Y prif ffocws wrth symud ymlaen oedd sicrhau bod unrhyw drefniant yn cael ei adolygu. Cafwyd sgwrs aeddfed ac agored iawn gyda'r holl benaethiaid, a derbyniwyd sylwadau cadarnhaol iawn eu bod hwy, fel cyfundrefn, yn prynu i mewn i'r egwyddor yma yn ddiamod.
- O ran allanoli'r gwasanaeth a chreu ceginau rhanbarthol, eglurwyd ei bod yn ddyddiau cynnar iawn ar hyn o bryd, ac mai ystyriaethau cychwynnol yn unig oedd y rhain. Byddai'r Adran yn rhoi sylw manwl i bob un o'r opsiynau ar y bwrdd, gan hefyd gymryd sylwadau'r craffwyr i ystyriaeth wrth wneud hynny.
- Bod ysgolion yn rhydd i ddehongli'r cwricwlwm newydd yng nghyd-destun materion lleol, a bod y sylw ynglŷn â llesiant a byw yn iach, gweithredu'n iach a chael ysgolion iach yn dod yn fwyfwy canolog i'r cwricwlwm newydd. Gan hynny, croesawyd y cynnig i barhau â'r sgwrs gyda'r ysgolion i sicrhau plethu agweddau dydd i ddydd, fel bwyta'n iach a chinio ysgol, fel rhan o'r cwricwlwm.
- Y byddai'r Adran yn fwy na bodlon darparu adroddiad pellach maes o law, a gofynnwyd hefyd i'r aelodau weithio gyda'r Awdurdod i hyrwyddo'r cynlluniau newydd yn eu cymunedau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, a gofyn i'r Adran Addysg am ddiweddariadau cyson fel mae'r cynlluniau newydd yn symud yn eu blaenau.**

## 7. ADRODDIADAU BLYNYDDOL ADDYSG

### (A) ADRODDIAD BLYNYDDOL ADRAN ADDYSG 2020-21 A BLAENORIAETHAU'R ADRAN ADDYSG

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol yr Adran Addysg ar gyfer 2020-21.

Cyn cychwyn ar y drafodaeth, diolchodd yr Aelod Cabinet i'r ysgolion a'r penaethiaid, y staff a'r athrawon am gynnal, nid yn unig y ddarpariaeth addysgol, ond hefyd darpariaethau megis arlwyo a glanhau yn ystod blwyddyn hynod o heriol. Ychwanegodd ei bod yn bwysig hefyd cydnabod gwerthfawrogiad yr ysgolion a'r penaethiaid o'r gefnogaeth a roddwyd gan yr Adran Addysg yn ystod y cyfnod, ac roedd o'r farn bod y berthynas rhwng yr Adran a'r ysgolion wedi cryfhau yn ystod y pandemig.

Ategwyd y sylwadau hyn gan y Pennaeth Addysg a nododd y dymunai yntau hefyd dalu teyrnged i swyddogion yr Adran fu'n cefnogi'r holl waith, a hefyd i staff Adran yr Amgylchedd am y cyngor a'r cymorth amhrisiadwy gan y swyddogion iechyd a diogelwch a'r cydweithio prydlon ac effeithiol i gadw'r sefyllfa i fynd. Nododd fod yr amharu ar addysg a lles plant wedi ei gadw mor isel â phosib' oherwydd dygnwch a dyfalbarhad nifer fawr o bobl Gwynedd, a gallai'r aelodau etholedig ymfalchïo yn ein hysgolion a'u rôl hwythau fel llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgolion ar draws y sir.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Diolchwyd i'r Adran am ddarparu adroddiad cryno, oedd yn cyfleu'r negeseuon yn glir iawn.
- Gan gyfeirio at baragraff 3.8 o'r blaen adroddiad, croesawyd y ffaith bod y gair 'dwyieithog' wedi diflannu o'r naratif, gan y dylai'r pwyslais fod ar ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a mynegwyd gobaith y gellid adeiladu ar hyn dros y blynyddoedd yn ein hysgolion.

Mewn ymateb i'r sylwadau ac i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- O ran y sefyllfa bresennol yn yr ysgolion, bod y data yn newid yn ddyddiol, ond roedd yn ymddangos bellach bod y sefyllfa wedi cyrraedd uchafbwynt mewn rhai sefyllfaoedd, gyda nifer o staff a phlant yn dychwelyd i'r ysgolion. Roedd y sefyllfa wedi bod yn eithriadol o anodd gyda hyd at 30% o'r staff a'r plant i ffwrdd mewn rhai dosbarthiadau. Yn yr achosion hynny, symudwyd i addysg rithwir a bu'n rhaid i swyddogion yr Adran, ynghyd â'r swyddogion iechyd a diogelwch, gymryd penderfyniadau cyflym iawn a phellgyrhaeddol ar adegau. Roedd y sefyllfa bellach yn sefydlogi mewn rhai pocedi, ac roedd yr Adran yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gadw'r ysgolion yn agored mor ddiogel â phosib'. Nodwyd hefyd bod penaethiaid oedd i ffwrdd o'r ysgol oherwydd Cofid wedi parhau i redeg yr ysgolion hynny o gartref.
- Bod y Llywodraeth wedi gofyn i'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ddarparu ffigwr o'r gwariant ychwanegol a welwyd yn y maes hyd yma, a lle y disgwylir i'r gwariant ychwanegol fod yn y dyfodol.
- Nad oedd rhai o'r trafodaethau ynglŷn ag addysg ôl-16 wedi digwydd mor rheolaidd ag y dymunid yn ddiweddar oherwydd y pwysau ar yr ysgolion i ddelio gyda chadw'n agored, ond bwriedid ail-afael yn y drafodaeth yn llawn ym mis Ionawr er mwyn symud ymlaen cyn gynted â phosib' i weld sut y gellir gwella ar y ddarpariaeth bresennol.
- Y cytunid bod y symudiad at addysg cyfrwng Cymraeg i'w groesawu. Eglurwyd bod hwn yn symudiad cenedlaethol yn bennaf, ond bod y Llywodraeth wedi ymgynghori ar hyn gyda'r Pennaeth Addysg a'r swyddogion yng Ngwynedd oherwydd bod Gwynedd yn naturiol yn cael ei gweld fel sir sy'n arwain ar addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn genedlaethol. O dan y drefn newydd, ni fydd modd i ysgolion barhau yn eu hunfan am gyfnod estynedig o ran cyfrwng eu darpariaeth, gyda'r disgwyliad i awdurdodau sicrhau bod ysgolion yn parhau i wneud cynnydd o safbwynt eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn gynted â phosib'.
- Bod gan yr Awdurdod gyfrifoldeb i sicrhau hyfforddiant perthnasol a phenodol ar gyfer ei holl staff yn yr ysgolion. Roedd yr angen i wneud hynny wedi ei uchafu hyd yn oed yn fwy yn ystod y pandemig, oherwydd pryder yr ysgolion ynglŷn â cholli'r cyswllt bugeiliol rhwng y plant mwyaf bregus a'r staff proffesiynol, gan nad oeddent yn gweld y plant hynny'n ddyddiol. Nodwyd bod yr ysgolion i'w canmol am y cyswllt gyda phlant bregus drwy gydol y pandemig, ac awgrymwyd y gellid manylu ar hyn mewn adroddiad pellach i'r pwyllgor. Adroddwyd i'r Panel Strategol Diogelu a'r Panel Rhiant Corfforaethol ar yr hyfforddiant ychwanegol oedd wedi digwydd yn y maes yma. Roedd ffocws yr Adran ar lesiant a diogelu yn fwy nag erioed, a chredid bod yr ysgolion wedi llwyddo i wneud hynny'n dda iawn, a bod hynny gydag arweiniad, ac yn sgil effaith yr hyfforddiant ychwanegol.
- Bod dyfeisiadau ar gyfer yr athrawon yn cael eu paratoi ar hyn o bryd, a'r trefniadau ar gyfer eu cynnal a'u cadw yn mynd rhagddynt. Unwaith y byddai hynny yn ei le, byddai dros 1,000 o ddyfeisiadau ar gyfer staff a dros 5,000 o ddyfeisiadau ar gyfer

plant uwchradd yn cael eu dosbarthu i'r ysgolion. Rhagwelid y byddai hynny'n digwydd yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

- Mai nod y Strategaeth Ddigidol oedd gwella'r strwythur o gwmpas cefnogi TG mewn ysgolion. Roedd isadeiledd y rhyngrwyd, sy'n genedlaethol, yn cael ei reoli ar hyn o bryd gan y Cyngor, gyda phob dyfais yn yr ysgolion yn cael ei reoli'n rhannol gan dechnegydd yr ysgol ac yn rhannol gan gwmni Cynnal. Fel rhan o'r strategaeth o symud i fodel cynnal a chadw gwahanol, bwriedid mewnoli'r gwasanaeth fel bod Cyngor Gwynedd yn cefnogi'r cyfrifiaduron ar draws pob ysgol, ac felly'n sicrhau cysondeb o ran y ddarpariaeth.
- O ran arian ychwanegol i gynorthwyo disgyblion yn sgil Covid, bod gwaith yn mynd rhagddo, nid yn unig yn sirol, ond yn rhanbarthol hefyd, i sicrhau bod ysgolion yn cyd-weithio mewn cynghreiriau i wneud y gorau o'r adnodd er mwyn unioni'r anfanteision roedd plant wedi cael yn ystod y pandemig. Byddai'r Adran yn cadw llygaid ar ddeilliannau'r cynlluniau ar y cyd â'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion.

**(B) ADRODDIAD BLYNYDDOL GWE 2020/21**

Croesawyd swyddogion GwE i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol GwE ar gyfer 2020-21.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, nododd Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Safonau) GwE y dymunai gydnabod y gwaith arbennig iawn oedd wedi'i wneud mewn cyfnod heriol iawn yn yr ysgolion.

Yna manylodd yr Arweinyddion Craidd ar ddatblygiadau ar gyfer y cwricwlwm newydd fyddai'n cychwyn yn yr ysgolion cynradd yn 2022.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Croesawyd y ffaith bod y teitl 'Swyddogion Her' wedi diflannu ac mai 'cefnogaeth', 'datblygu', 'gwella' a 'chymorth', ayb, oedd y geiriau allweddol bellach.
- Mynegwyd pryder nad yw plant, e.e. Blwyddyn 10, sy'n cael profion ffurfiol yn wythnosol, yn gwybod a fydd canlyniadau'r asesiadau hynny yn cyfrannu at eu graddau terfynol ai peidio.

Mewn ymateb i'r sylwadau ac i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Er na fyddai data perfformiad ar gael o hyn allan, roedd yr arfer o fynd i mewn i ddosbarthiadau, craffu ar lyfrau a siarad ag athrawon a phlant o fudd i'r Gwasanaeth sicrhau bod ganddynt wybyddiaeth dda iawn o'r ysgolion. Ni chredid bod canolbwyntio ar set gul o ddangosyddion perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol yn rhoi darlun llawn o'r ysgol, ac wrth symud ymlaen heb y data hwnnw, roedd yn bwysig cael y darlun llawn holistig o ysgol o gwmpas 4 diben y cwricwlwm newydd. Roedd y Gwasanaeth yn edrych hefyd ar les y plant, sut mae'r dysgwyr yn datblygu tuag at y 4 diben, a thrwy lunio gwaelodlin, byddai'r Gwasanaeth yn paratoi adroddiad ar gyfer pob ysgol yng Ngwynedd, ynghyd ag adroddiad rhanbarthol gyda naws lleol fel atodiad, yn crynhoi lle mae'r ysgolion arni, a beth yw'r safonau. Yn amlwg, roedd rhaid bod yn sensitif i sefyllfa'r ysgolion ar hyn o bryd, ond roedd y Gwasanaeth yn

gweithio'n agos iawn gyda swyddogion yr Awdurdod, sydd â darlun o sefyllfa'r ysgolion o safbwynt presenoldeb, cynhwysiad, ADY, ayb, er mwyn cael y darlun llawn. Roedd cysondeb ar draws y rhanbarth yn y dull o weithredu ac o adnabod yr ysgolion, ac roedd angen adnabod unrhyw lithriadau yn gynnar gan ymateb a rhoi cefnogaeth i'r ysgolion. Drwy gymryd cydberchnogaeth dros y deilliannau a gweithio hefo'r ysgol i roi cynllun cefnogaeth mewn lle, gellid sicrhau cefnogaeth lawn ar gyfer sicrhau'r gwella sydd ei angen. Nodwyd ymhellach bod Gwynedd wedi bod yn flaenllaw ac wedi gweithredu hyn yn gynnar iawn. Fel pob cynllun rhanbarthol, roedd angen blas lleol, a gwnaed rhai mân newidiadau i'r cynllun yng Ngwynedd mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion.

- Na ddylai ymadawiad athro/athrawes, fu'n gyfrifol am ddatblygu elfen o'r cwricwlwm newydd yn lleol, fod yn broblem gan fod y cwricwlwm lleol wedi'i baratoi gan yr ysgol gyfan.
- Mai bwriad yr Arolygiaeth yng Nghymru oedd ail-afael mewn arolygiadau ysgolion yn nhymor y Gwanwyn. Roedd trafodaethau cyson yn digwydd gydag Estyn, ac roedd angen i'r Gwasanaeth fod yn sensitif i sefyllfa ysgolion ar hyn o bryd, gan arolygu'r ysgolion yn y cyd-destun hwnnw. Nodwyd ymhellach y byddai Estyn yn peilota arolygon mewn tua 30 o ysgolion i gychwyn, ac roedd cyfle i ysgolion wirfoddoli i fod yn rhan o hyn. Disgwylid dychwelyd yn ôl i'r drefn arferol o arolygu ar ôl y Pasg, er bod y fframwaith wedi newid rhywfaint. Byddai'r negeseuon o'r cynllun peilot yn bwysig fel bod ysgolion yn gliriach o ran y disgwyliadau pan fydd pob ysgol yn gallu cael arolwg o'r Pasg ymlaen, a byddai yna gadw golwg manwl ar y sefyllfa mewn ysgolion erbyn hynny. Nodwyd ymhellach y gobeithid y byddai absenoldeb data ysgolion yn cyfoesi'r drefn arolygu i gymryd cyd-destun ysgolion lleol a chyrhaeddiad plant i ystyriaeth, yn hytrach nag edrych ar ddata moel yn unig, ac y byddai'r broses honno o adolygu yn esgor ar adroddiad adolygiad llawer mwy lleol a defnyddiol i'r ysgol.
- Y cytunid â'r sylw ynglŷn â'r gair 'her' ac y newidiwyd teitl y swydd i 'Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant', sydd wedi gwneud gwahaniaeth o ran newid y diwylliant.
- O ran y cyfeiriad at yr agwedd leol yn y cwricwlwm, bod cyfle yma i athrawon fynd i ddyfnder pynciau i wella dealltwriaeth plant o bynciau sy'n mynd i roi cyfleoedd gwaith iddynt yn lleol, gan hefyd agor eu gorwelion i'r hyn sydd yn y byd mawr y tu allan. Nodwyd hefyd bod cyswllt amlwg yma gyda'r eitem flaenorol ynglŷn ag ansawdd swyddi a lefelau cyflogaeth yng Ngwynedd. O gael hyn yn iawn, ac yn benodol efallai y pynciau STEM, a thargedu a sicrhau bod plant yn cael y dyfnder gwybodaeth sydd ei hangen arnynt yn y maes, byddai'r blas lleol, nid yn unig yn sicrhau bod plant yn cael mynediad at swyddi o ansawdd sy'n talu'n briodol ac yn galluogi iddynt aros yn y sir, ond hefyd, o ystyried y profiadau a'r cymwysterau fydd gan ein pobl ifanc, yn fodd o ddenu diwydiannau i Wynedd.
- Bod yr awdurdodau a'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion yn gyson yn rhoi pwysau ar awdurdodau megis Cymwysterau Cymru i fod yn eglur ynglŷn â'u trefn o ran arholi neu brofi plant a phobl ifanc, ond bod angen yr eglurder hwnnw fwy nag erioed eleni. Roedd sôn mai dymuniad y Llywodraeth a Chymwysterau Cymru oedd symud i fodel o arholi allanol yr haf nesaf, os yn bosib', ond roedd yr ysgolion hefyd yn paratoi ar gyfer y posibilrwydd o asesiadau mewnol. Roedd angen eglurder ar hyn rhag blaen fel bod yr ysgolion yn gallu paratoi'n briodol, ond deellid na fyddai penderfyniad yn cael ei wneud tan fis Ebrill y flwyddyn nesaf, sy'n rhy agos at ddiwedd y flwyddyn ysgol. Nodwyd

ymhellach bod Cyd-bwyllgor GwE wedi ysgrifennu at y Gweinidog yn galw am benderfyniad buan ar hyn, ac roedd y rhanbarth hefyd wedi bod yn flaenllaw yn galw ar Lywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru am ddatrysiad buan. Hefyd, roedd yr Aelod Cabinet Addysg wedi bod yn achub ar bob cyfle i yrru'r neges ac i lobïo ar ein rhan, ac roedd wedi bod yn llais allweddol yn y drafodaeth ranbarthol a arweiniodd at lythyru'r Llywodraeth am ateb buan.

- Bod Cymwysterau Cymru wedi gofyn i ysgolion sicrhau eu bod yn hysbysu plant ymlaen llaw os bydd asesiad yn cyfrannu at y radd derfynol. Gellid bod yn ffyddiog bod yr ysgolion yn ymwybodol o'r gofyn yma arnynt. Roedd y canllawiau yn ddigon clir gan CBAC a Chymwysterau Cymru, ond yn ogystal â'r cyfrifoldeb ar yr ysgolion, roedd cyfrifoldeb hefyd ar y Gwasanaeth i atgoffa'r ysgolion o'r rheoliadau ac i'w cefnogi.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau, gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod.**

## 8. RHAGLEN WAITH CRAFFU DDIWYGIEDIG

Cyflwynwyd rhaglen waith craffu ddiwygiedig ar gyfer 2021/22.

Cyfeiriwyd at benderfyniad y pwyllgor hwn yn eu cyfarfod diwethaf i gyfeirio'r eitem ynglŷn ag Ysgol Abersoch yn ôl i'r Cabinet i'w ail-ystyried. Nodwyd na lwyddwyd i ddarbwyllo'r Cabinet i newid eu meddyliau ar y mater, gan iddynt gadarnhau eu penderfyniad eu hunain. Pwysleisiwyd nad oedd hyn yn deg ar drigolion y sir, ac y dylai materion sy'n cael eu cyfeirio o'r Cabinet i'w craffu gael eu cyfeirio ymlaen i'r Cyngor llawn, yn hytrach na'u cyfeirio'n ôl i'r Cabinet, am benderfyniad terfynol.

Gan gyfeirio at yr eitem 'Cefnogaeth i athrawon gyda materion cam drin ar y we', nododd y Pennaeth Addysg fod Estyn wedi cyhoeddi adroddiad yr wythnos hon yn seiliedig ar waith thematig oedd ganddynt, ac y byddai ein hargymhellion ni yn cael eu plethu gydag argymhellion Estyn er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn arwain ar hyn, a'n bod yn gwneud ein gorau i ddileu'r broblem hon yn ein hysgolion. Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd mai prif ffocws yr adroddiad i'r pwyllgor fyddai'r elfen awgrymog o gam-drin rhywiol sydd wedi bod yn digwydd ar y cyfryngau cymdeithasol, ond mater i'r pwyllgor oedd penderfynu a ddymunent i'r eitem fod yn ehangach na hynny.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen waith ddiwygiedig.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 1.25 y.h.

**CADEIRYDD**